**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

1. **Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026**

2. **Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026**

3. **Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026, Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026 a Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

**6 Chwefror 2026**

**RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses gydsynio unedig ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru, ar y tir ac yn ardal forol Cymru, er mwyn galluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae Rhan 6 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion cydsyniad seilwaith (gorchmynion sy'n rhoi cydsyniad seilwaith) gan gynnwys darpariaeth sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad a, drwy orchymyn, newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch digolledu pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael ei newid neu ei ddirymu gan Weinidogion Cymru heb i gais gael ei wneud.

1.2 Mae'r offerynnau statudol Cymreig sy'n destun y Memorandwm Esboniadol hwn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer cywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad ac ar gyfer ceisiadau i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith, codi ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a cheisiadau arfaethedig i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith a'r modd y mae rhaid gwneud cais am ddigollediad, a'r cyfnod y mae rhaid gwneud cais am ddigollediad o'i fewn, o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2024. Maent hefyd yn pennu isafswm y digollediad am ddibrisiant o dan baragraff 2 o'r Atodlen honno.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Deddf 2024, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 3 Mehefin 2024, yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y gyfundrefn gydsynio newydd ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.

3.2 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn cwmpasu tri offeryn statudol Cymreig.

<u>Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026</u>

3.3 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 40(5), a (6)(a) i (c), 42(4) a (6), 44(1), (2) a (4), 65(4), 88, 91(1), (3) a (5), 140(1) a (2), 96(7)(b) a 141(2) o Ddeddf 2024.

3.4 Mae adran 88(1) a (2) o Ddeddf 2024 yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn i gywiro gwallau mewn dogfen penderfyniad (fel y'i diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno).

3.5 O dan adran 91(1) o Ddeddf 2024, rhaid i gais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith gael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a bennir mewn rheoliadau a rhaid i wybodaeth o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau fynd gyda chais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, ac mae adran 91(3) yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

3.6 O dan adran 40(2) o Ddeddf 2024, caiff Gweinidogion Cymru benodi person neu banel o bersonau i archwilio cais i ddirymu neu newid gorchymyn cydsyniad seilwaith. Mae adran 40(5) a (6)(a) i (c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach mewn rheoliadau ar gyfer awdurdod archwilio neu mewn cysylltiad ag awdurdod archwilio, gan gynnwys penodi aelodau i banel, dyrannu swyddogaethau i bersonau ar banel a disodli panel. Mae adran 42(4) yn pennu bod yn rhaid i'r awdurdod archwilio benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer archwilio cais cyn diwedd cyfnod a bennir mewn rheoliadau. Mae adran 42(6) yn galluogi gwneud rheoliadau i bennu'r personau hynny y mae rhaid i'r awdurdod archwilio eu hysbysu am ei benderfyniad. Mae adran 44 yn darparu ar gyfer rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag archwilio cais.

3.7 Mae adran 65(4) o Ddeddf 2024 yn galluogi rheoliadau i bennu'r weithdrefn mewn perthynas â thir y mae awdurdod i gaffael yn orfodol yn ymwneud ag ef.

3.8 Mae adran 96(7)(b) o Ddeddf 2024 yn darparu ar gyfer rheoliadau i bennu'r “diwrnod perthnasol“ at ddibenion y cyfnod y mae rhaid gwneud cais am adolygiad barnwrol o'i fewn o dan is-adran (6) yng nghyd-destun ceisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

3.9 Mae adran 140 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaethau ynghylch y cyfyngiadau sy'n gymwys i unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Mae is-adrannau (1) a (2) yn darparu eglurder y gall rheoliadau a wneir o dan adrannau penodedig, gan gynnwys adran 91(3) a 124 o Ddeddf 2024, gynnwys darpariaeth y byddai cydsyniad Gweinidog priodol Llywodraeth y DU yn ofynnol ar ei chyfer, neu y byddai'n ofynnol ymgynghori â Gweinidog priodol Llywodraeth y DU yn ei chylch, o dan y paragraffau penodedig o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn cynnwys y gallu i roi swyddogaethau i awdurdodau a gedwir yn ôl.

3.10 Mae adrannau 141(2) a 144 o Ddeddf 2024 yn darparu'r pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol a gwneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

3.11 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd (gweler adran 141(5) o Ddeddf 2024 a pharagraff 5 o Atodlen 1A i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (“Deddf 2019”)).

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026

3.12 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 124(1), (4), (5) a (6), 140(1) a (2) a 141(2)(a) o Ddeddf 2024.

3.13 Mae adran 124 o'r Ddeddf yn galluogi rheoliadau mewn perthynas â chodi ffioedd gan awdurdod cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith ac am ddarparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith. Gweler paragraff 3.9 mewn perthynas ag adran 140 o'r Ddeddf.

3.14 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd (gweler adran 141(3) a (4)(h) o Ddeddf 2024 a pharagraff 3 o Atodlen 1A i Ddeddf 2019).

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026

3.15 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraffau 1(3) a 2(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

3.16 Mae paragraff 1(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch y modd y mae rhaid gwneud cais am ddigolllediad, a’r cyfnod y mae rhaid gwneud cais am ddigolllediad o’i fewn, o dan y paragraff hwnnw. Mae paragraff 2(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn pennu bod paragraffau 3 i 9 o'r Atodlen honno yn gymwys pan fo digolllediad yn dod yn daladwy gan Weinidogion Cymru, sy'n cynnwys digolllediad am ddibrisiant o fwy na'r isafswm a nodir mewn rheoliadau.

3.17 Mae rheoliadau a wneir o dan baragraff 1(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd (gweler adran 141(5) o Ddeddf 2024 a pharagraff 5 o Atodlen 1A i Ddeddf 2019).

3.18 Mae rheoliadau a wneir o dan baragraff 2(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd (gweler adran 141(3) a (4)(m) o Ddeddf 2024 a pharagraff 3 o Atodlen 1A i Ddeddf 2019).

3.19 Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan baragraffau 1(2) a 2(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 ac felly maent yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd (gweler adran 37G o Ddeddf 2019).

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Datganolodd Deddf Cymru 2017 ragor o gyfrifoldeb deddfwriaethol a gweithredol am gydsynio i brosiectau cynhyrchu ynni, llinellau trydan uwchben yn ogystal â phorthladdoedd a harbyrau. O ganlyniad i'r ffordd y datganolwyd y pwerau hyn, rhoddwyd Cymru mewn prosesau cydsynio nad oeddent yn

addas at y diben ac, mewn rhai achosion, hen brosesau cydsynio. At hynny, nid oedd cyfundrefn gydsynio unedig a syml ar gael i Gymru mwyach mewn perthynas â seilwaith ynni.

4.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, cyflwynwyd Bil Seilwaith (Cymru) (sef Deddf 2024 bellach) i'r Senedd ar 12 Mehefin 2023 a daeth yn gyfraith ar 3 Mehefin 2024, wrth iddo gael Cydsyniad Brenhinol. Mae'n deddfu ar gyfer un gyfundrefn gydsynio unedig ar gyfer prosiectau ynni a seilwaith mawr yng Nghymru, ar y tir ac yn y môr tiriogaethol.

4.3 Gosodwyd cyfres o reoliadau i weithredu darpariaethau Deddf 2024 mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad seilwaith gerbron y Senedd yn ystod Haf / Hydref 2025 a daethant i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

4.4 Yn ogystal â'r gyfres uchod o reoliadau, mae darpariaeth bellach yn ofynnol i bennu gofynion gweithdrefnol ar ôl penderfyniad, pan fo'n ofynnol cywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad, mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith ac mewn cysylltiad â digollediad am newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith.

4.5 Mae natur prosiectau seilwaith arwyddocaol yn golygu y gallai fod angen newidiadau i ddatblygiad y rhoddwyd cydsyniad seilwaith iddo, naill ai cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau neu yn ystod y broses adeiladu, pan nad yw'r newidiadau hynny'n cael eu cwmpasu gan baramedrau gorchymyn cydsyniad seilwaith.

4.6 Yn yr un modd, pan roddir cais am gydsyniad seilwaith a gwneir gorchymyn, ond heb ei weithredu eto, dros amser gall fod amgylchiadau sy'n golygu y dylid dirymu'r gorchymyn cydsyniad seilwaith.

4.7 Mae'r Rheoliadau sy'n destun y Memorandwm Esboniadol hwn fel a ganlyn.

<u>Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026</u>

4.8 Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer cywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad ac ar gyfer ceisiadau i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith.

4.9 Maent yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â, ymhlith pethau eraill, rhoi hysbysiad o gais arfaethedig, gofynion cyhoeddi a hysbysu (yn achos newidiadau a ystyrir gan Weinidogion Cymru i fod yn sylweddol ac ar gyfer dirymiadau), cyflwyno ceisiadau, gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ar ôl cais. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer archwilio cais pan fo awdurdod archwilio yn cael ei benodi a'r broses o wneud penderfyniadau ac yn cynnwys darpariaeth ynghylch pa gamau sydd i'w cymryd pan nad yw Gweinidogion Cymru yn penodi awdurdod archwilio.

4.10 Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer cywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad ac yn pennu'r “diwrnod perthnasol” at ddibenion adran 96(7)(b) o Ddeddf 2024 (heriau cyfreithiol).

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026

4.11 Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026 yn diwygio Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025 i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd gan awdurdod cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith ac ar gyfer darparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith mewn cysylltiad â cheisiadau neu geisiadau arfaethedig i newid, neu ddirymu, gorchymyn cydsyniad seilwaith.

4.12 Mae'r rhain yn cynnwys ffioedd am hysbysiadau am geisiadau arfaethedig, gwneud ac archwilio ceisiadau. Pwrpas hyn yw sicrhau y gellir adennill y costau ar gyfer ymgymryd â swyddogaeth sy'n ymwneud â chais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026

4.13 Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y modd y mae rhaid gwneud cais am ddigollediad, a’r cyfnod y mae rhaid gwneud cais am ddigollediad o’i fewn, o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2024. Maent hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu isafswm y digolllediad am ddibrisiant o dan yr Atodlen honno.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cyflwynwyd cynigion ar roi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith, gan gynnwys gofynion gweithdrefnol sy'n ymwneud â chywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad a newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith, yn y papur ymgynghori *‘Rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith’*.

5.2 Cyhoeddwyd y papur ymgynghori ar 19 Medi 2024 ac roedd ar agor ar gyfer ymatebion tan 13 Rhagfyr 2024. Cafwyd 72 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.3 Yn fras, roedd ymatebwyr yn gefnogol o ran y cynigion a oedd yn ymwneud â chywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad a newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith. Fodd bynnag, dywedodd sawl ymatebydd y byddai eglurder pellach ar faterion penodol yn fuddiol, megis yr hyn a fyddai'n ddiwygiad ansylweddol neu sylweddol.

5.4 Y bwriad yw ategu'r Rheoliadau hyn gyda chanllawiau manwl, a fydd yn darparu'r eglurder angenrheidiol y gofynnwyd amdano gan ymatebwyr.

5.5 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

[Rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith | LLYW.CYMRU]

5.6 Nid oedd Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026 yn destun ymgynghoriad ffurfiol.

5.7 Codwyd yr egwyddor o ddigolllediad am orchmynion unochrog yn yr ymgynghoriad ac fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru, gwnaed ymrwymiad i ystyried y materion hyn wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth. Mae'r rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw.

5.8 At hynny, cytunwyd ar yr egwyddor o faterion sy'n ymwneud â digolledu hefyd fel rhan o waith datblygu Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 a bydd yn cael effaith gyfyngedig ar ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn oherwydd y gellir gwneud cais am ddigolllediad o dan y rheoliadau hyn dim ond o dan amgylchiadau pan fo Gweinidogion Cymru yn newid neu'n dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith yn unochrog, na ddisgwylir iddo ddigwydd yn aml.

5.9 Yn olaf, mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026 yn ymwneud â materion gweithdrefnol sy'n adlewyrchu darpariaethau tebyg mewn cyfundrefnau cydsynio presennol, ac yn dilyn y cynigion a nodwyd yn y Datganiad o Fwriad y Polisi a oedd yn cyd-fynd â'r Bil.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Crynodeb

1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gwblhau ar gyfer Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026, Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026, a Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026"). Mae'r rheoliadau yn rhagnodi manylion newydd ar gyfer y broses cydsynio seilwaith a nodir gan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("y Ddeddf"). Gwnaethant osod proses i Weinidogion Cymru newid neu ddirymu Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith, y ffioedd y gellir eu codi, a'r broses ar gyfer tâl digolledu lle caiff gorchymyn ei ddirymu neu ei ddiwygio. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn isod.

2. Nid oes darpariaethau penodol yn Rheoliadau 2026 sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

3. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael ei lywio gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Papur Methodoleg ategol a luniwyd ar gyfer y Ddeddf a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a luniwyd ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth ehangach sy'n deillio o'r Ddeddf, gan ddangos tystiolaeth o gostau cydsynio seilwaith i randdeiliaid gwahanol. Ceir y dogfennau hynny yma:

   - Deddf Seilwaith (Cymru) – Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gweler tudalennau 63-119 ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol: https://senedd.cymru/media/ojopasqp/pri-ld15880-em-w.pdf

   - Deddf Seilwaith (Cymru) – Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Papur Methodoleg: https://busnes.senedd.cymru/documents/s137490/Bapur%20Methodoleg%20yr%20Asesiad%20Effaith%20Rheoleiddiol%20RIA%20-%2012%20Mehefin%202023.pdf

   - Is-ddeddfwriaeth Deddf Seilwaith (Cymru) – Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gweler tudalennau 14-40 ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol: sub-ld17231-em-cy.pdf

4. I ddangos tystiolaeth o gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, caiff y costau y dangoswyd tystiolaeth ohonynt mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol ar gyfer proses cydsynio seilwaith newydd eu cymhwyso. Y rheswm dros hyn yw bod costau ac egwyddorion cyffredinol yr hyn y bydd proses gydsynio newydd yn ei olygu i wahanol randdeiliaid yn ddigyfnewid; er enghraifft, ceisiadau yn cael eu prosesu gan Lywodraeth Cymru.

5. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cymhwyso cyfnod arfarnu o 10 mlynedd ar gyfer dangos tystiolaeth o gostau'r opsiynau gwahanol i randdeiliaid. Yn ystod y cyfnod hwn, ystyrir y bydd costau yn sefydlogi.

6. At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf. Felly, efallai na fydd rhai ffigurau'n symio oherwydd talgrynnu.

**Setiau Data Allweddol a Ddefnyddiwyd i Ddarparu Tystiolaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

7. Mae nifer o setiau data allweddol sydd wedi cael eu defnyddio i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, a chânt eu trafod yn eu tro isod.

*Data hanesyddol ar geisiadau i newid a dirymu seilwaith*

8. I bennu faint o geisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith a gaiff eu cyflwyno, mae data hanesyddol ar nifer y ceisiadau tebyg a gyflwynwyd o dan brosesau cydsynio sydd eisoes yn bodoli wedi cael eu cymhwyso.

9. Y gyfundrefn gydsynio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (“DAC”) yw'r gyn-broses a ddefnyddiwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar brosiectau seilwaith arwyddocaol. Defnyddiwyd data ar y gyfundrefn gydsynio ar gyfer DAC i lywio Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol hefyd. Mae data tebyg yn ymwneud â DAC yn darparu sail gadarn i ddangos beth sy'n debygol o ddigwydd mewn rheoliadau yn y dyfodol sy'n ddarostyngedig i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

*Newidiadau i gynlluniau DAC*

10. Caniatadau cynllunio yw cydsyniadau DAC ac felly mae awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) yn penderfynu ar geisiadau am newidiadau i DAC a ganiateir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r rhain naill ai'n newidiadau sylweddol i'r caniatadau hynny (o dan ddarpariaethau Adran 73 sy'n galluogi newidiadau i amodau cynllunio caniatâd cynllunio) neu newidiadau ansylweddol i'r caniatadau hynny (o dan ddarpariaethau Adran 96A sy'n caniatáu i newidiadau ansylweddol gael eu gwneud i ganiatâd cynllunio).

11. Cynhaliwyd ymarfer casglu data gyda phob ACLl ledled Cymru yn ystod mis Medi a mis Hydref 2025 i ganfod nifer y cynlluniau Adran 73 a 96A ar gyfer cynlluniau DAC dros y pum mlynedd flaenorol. Mae'r data hyn yn darparu sail gref ar gyfer pennu nifer tebygol y ceisiadau i Weinidogion Cymru yn y dyfodol ar gyfer newidiadau i orchmynion cydsyniad seilwaith. Dangosir y canlyniadau yn y tabl isod.

**Tabl A – Data a gafwyd gan ACLlau yn ystod mis Medi a mis Hydref 2025 ar nifer y ceisiadau y maent wedi penderfynu arnynt ar gyfer newidiadau i gynlluniau DAC dros y pum mlynedd flaenorol**

| Awdurdod lleol | Data a ddychwelwyd – Ceisiadau Adran 73 ar gyfer cynlluniau DAC (newidiadau sylweddol) | Data a ddychwelwyd – Ceisiadau Adran 96A ar gyfer cynlluniau DAC (newidiadau ansylweddol) |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 | 2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | 1 |
| Caerffili | 1 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Caerdydd | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 1 |
| Ceredigion | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | Dim data wedi'u dychwelyd |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 1 |
| Powys | 4 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 2 |
| Abertawe | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 1 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 0 | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 0 | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 0 | 0 |
| **Cyfanswm nifer y ceisiadau DAC o dan Adran 73 (newidiadau sylweddol) y penderfynodd ACLlau arnynt dros y pum mlynedd flaenorol** | **(Cyfanswm y niferoedd uchod) = 10** | |
| **Nifer cyfartalog y ceisiadau DAC o dan Adran 73 (newidiadau sylweddol) y penderfynodd ACLlau arnynt fesul blwyddyn** | **(Cyfnod o 10 / 5 mlynedd) = 2 y flwyddyn** | |
| **Cyfanswm nifer y ceisiadau DAC o dan Adran 96A (newidiadau ansylweddol) y penderfynodd ACLlau arnynt dros y pum mlynedd flaenorol** | | **(Cyfanswm y niferoedd uchod) = 13** |
| **Nifer cyfartalog y ceisiadau DAC o dan Adran 96A (newidiadau ansylweddol) y penderfynodd ACLlau arnynt fesul blwyddyn** | | **(Cyfnod o 13 blynedd / 5 mlynedd) = 2.6 y flwyddyn** |

12. Mae'r data yn dangos ar gyfartaledd fod ACLlau ledled Cymru yn penderfynu ar gyfanswm o ddau gais am newidiadau sylweddol i gynlluniau DAC bob blwyddyn, gyda chyfanswm o oddeutu tri (gan dalgrynnu ffigur o 2.6) chais am newidiadau ansylweddol i gynlluniau DAC bob blwyddyn. Caiff y ffigurau hyn eu defnyddio yn yr adrannau sy'n dilyn.

*Dirymiadau / datbarhau cynlluniau DAC*

13. Mae Adran 97 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r pŵer i ACLlau ddirymu neu addasu caniatâd cynllunio. Mae ganddynt hefyd y pŵer i gyflwyno ‘gorchymyn datbarhau’ o dan adran 102 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddirymu neu addasu caniatâd

cynllunio o dan adran 100 o Ddeddf 1990 hefyd a'r pŵer i gyflwyno ‘gorchymyn datbarhau’ o dan adran 104 o Ddeddf 1990.

14. Nid yw'r pwerau hyn wedi cael eu defnyddio.

*<u>Data ar gyfranogiad rhanddeiliaid mewn prosesau ar gyfer penderfynu ar geisiadau seilwaith</u>*

*Costau i Lywodraeth Cymru*

15. Ceir tystiolaeth o ddata presennol fel rhan o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol ar gyfer cydsyniadau seilwaith ar gostau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar geisiadau DAC. Mae'r data hyn yn berthnasol o hyd ar gyfer penderfynu ar geisiadau o dan y gyfundrefn gydsynio newydd. Roedd costau penderfynu ar geisiadau DAC, fel y dangoswyd mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol, yn seiliedig ar gymhlethdodau amrywiol ceisiadau. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r lefelau gwahanol hyn o gymhlethdodau i'w gweld ym Mhapur Methodoleg Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf.

16. Mae costau staffio wedi cael eu diweddaru lle defnyddiwyd data 2025-2026. Cyrchwyd y data hyn ym mis Tachwedd 2025 ac mae fel a ganlyn:

| **Tabl B – Costau cyflogau Llywodraeth Cymru 2025-26 (£)*** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd** | **Cost Gros Gyfartalog Flynyddol** | **Cost Gros Gyfartalog Fisol** | **Cost Gros Gyfartalog Fesul Awr** | **Cost Gros Gyfartalog Ddyddiol** |
| Cymorth Tîm** | 39,559 | 3,297 | 24.30 | 179.81 |
| Swyddog Gweithredol | 46,839 | 3,903 | 28.77 | 212.90 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 59,751 | 4,979 | 36.70 | 271.60 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 74,943 | 6,245 | 46.03 | 340.65 |
| G7 | 98,186 | 8,182 | 60.31 | 446.30 |
| G6 | 117,797 | 9,816 | 72.36 | 535.44 |
| Arolygydd G7*** | 113,141 | 9,428 | 69.50 | 514.28 |
| Arolygydd G6 | 136,469 | 11,372 | 83.83 | 620.31 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | 137,282 | 11,440 | 84.33 | 624.01 |

* Gan dybio 220 o ddiwrnodau gwaith y flwyddyn (260 o ddiwrnodau'r wythnos y flwyddyn llai 30 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol llai 10 diwrnod braint) a 7.4 awr y dydd.

** Costau staff 2025-2026 a gafwyd gan Economegydd Llywodraeth Cymru ar 20 Tachwedd 2025 a 4 Rhagfyr 2025.

*** Costau Arolygwyr G7 a G6 yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd gan PEDW ar 27 Tachwedd 2025.

17. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae costau i Lywodraeth Cymru wedi cael eu cymhwyso ar gyfer yr opsiynau gwahanol a'r cyfiawnhad dros eu defnyddio yn yr adrannau canlynol.

*Costau i ACLlau*

18. Ceir tystiolaeth o ddata presennol fel rhan o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol ar gyfer cydsyniadau seilwaith ar gostau i ACLlau am gyfrannu at geisiadau DAC. Mae hyn yn berthnasol o hyd i amcangyfrif costau i ACLlau am gyfrannu at geisiadau o dan y gyfundrefn gydsynio newydd. Lle y bo angen, caiff addasiadau addas eu cymhwyso.

19. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae costau i ACLlau wedi cael eu cymhwyso ar gyfer yr opsiynau gwahanol a'r cyfiawnhad dros eu defnyddio yn yr adrannau canlynol.

*Costau i ddatblygwyr ac ymgyngoreion statudol*

20. Mae data presennol ar gostau i ddatblygwyr am gyflwyno ceisiadau DAC a chostau i ymgyngoreion statudol am gyfrannu at y ceisiadau hynny. Cymerwyd y data hyn o adroddiad a luniwyd gan ymgynghorwyr Arup yn 2019 (“Adroddiad Arup”). Gellir gweld yr adroddiad yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/ymchwil-i-gost-datblygu-seilwaith-yng-nghymru.pdf.

21. Darparodd y data yn Adroddiad Arup dystiolaeth addas i amcangyfrif costau i ddatblygwyr ac ymgyngoreion statudol am gyfrannu at geisiadau o dan y gyfundrefn gydsynio newydd.

22. Ni chafodd y costau o Adroddiad Arup (sy'n rhagddyddio 2019) eu huwchraddio ar gyfer Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol cydsyniadau seilwaith. Mae hyn oherwydd bod y costau hyn wedi cael eu cofnodi dros gyfnod eang o amser (2013 i 2019) a'u bod yn cynnwys nifer o gostau sefydlog na fyddant wedi newid. Mae'r egwyddor hon wedi cael ei chymhwyso at ddibenion yr asesiad hwn felly ac nid yw costau o Adroddiad Arup wedi cael eu huwchraddio lle maent wedi cael eu defnyddio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

23. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae costau i ddatblygwyr ac ymgyngoreion statudol a gymerwyd o Adroddiad Arup wedi cael eu cymhwyso ar gyfer yr opsiynau gwahanol a'r cyfiawnhad dros eu defnyddio yn yr adrannau canlynol.

**Opsiynau**

24. Mae dau opsiwn yn cael eu datblygu fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Yr opsiwn cyntaf (Opsiwn 1) yw ‘gwneud yr isafswm’ a pheidio â rhoi rheoliadau ar waith a fydd yn darparu proses ffurfiol i Weinidogion Cymru newid neu ddirymu Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith. Hyd yn oed os na chaiff rheoliadau eu rhoi ar waith, mae Adran 90 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. I bob pwrpas, byddai hynny yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd â'r broses gan ddefnyddio egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Yr ail opsiwn (Opsiwn 2) yw rhoi'r rheoliadau a grybwyllwyd yn flaenorol ar waith.

25. Isod, ceir tablau cryno o'r costau sefydlu (lle y bo'n gymwys) a'r costau parhaus i randdeiliaid sy'n gysylltiedig â phob opsiwn, gyda rhagor o fanylion am y costau hynny yn cael eu darparu yn yr adrannau sy'n dilyn.

26. Mae'r opsiynau yn amlinellu prosesau ar wahân o ran ceisiadau seilwaith lle gellir newid neu ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith ac ystyrir y byddai costau ar wahân yn gymwys i bob un o'r prosesau hynny. Felly, mae'r costau o dan yr opsiynau gwahanol wedi cael eu rhannu, nid yn unig yn ôl rhanddeiliad, ond hefyd mewn perthynas â'r prosesau gwahanol a gwmpesir gan y rheoliadau neu brosesau cyfatebol os na roddir y rheoliadau ar waith. Nodir cyfanswm y costau fesul rhanddeiliad ar gyfer pob opsiwn o dan yr adran hon.

| **Tabl C – Costau sefydlu ar gyfer y naill opsiwn a'r llall (lle y bo'n gymwys)** | | |
|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 |
| Llywodraeth Cymru | £2,600 | £2,600 |
| ACLlau | £0 | £0 |
| Datblygwyr | £0 | £0 |
| Cymunedau | £0 | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | £0 | £0 |

| **Tabl D – Costau rheolaidd net y flwyddyn** | | |
|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 – Cyfanswm y Costau | Opsiwn 2 – Cyfanswm y Costau |
| Llywodraeth Cymru | £125,000 | £0 |
| ACLlau | £11,800 | £0 |
| Datblygwyr | £75,600 | £75,600 |
| Cymunedau | Anhysbys | Anhysbys |
| Ymgyngoreion Statudol | £9,500 | £0 |

## Costau a Manteision

### *Opsiwn 1 – Disgrifiad*

27. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r gyfundrefn gydsynio ar gyfer seilwaith a ragnodwyd gan y Ddeddf ac a gymeradwywyd gan is-ddeddfwriaeth eisoes yn dod i rym heb i broses ffurfiol gael ei rhoi ar waith i alluogi Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith i gael eu newid neu eu dirymu. Mae Adran 90 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Nid oes angen rhoi rheoliadau ar waith er mwyn gwneud hyn. Pe na baent yn cael eu rhoi ar waith, i bob pwrpas, byddai hynny yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd â'r broses gan ddefnyddio egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Yn y senario hon, ystyrir y byddai Llywodraeth Cymru yn dilyn proses a fyddai'n debyg i'r hyn a nodir yn y rheoliadau. Fodd bynnag, ni fyddai Llywodraeth Cymru, na chyrff eraill, yn gallu adennill unrhyw gostau yr eir iddynt o dan yr opsiwn hwn gan na fyddai atodlen ffioedd a fyddai'n golygu y gellid rhoi ad-daliad am gyflawni gweithdrefnau penodol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny.

***Opsiwn 1 – Costau Sefydlu (i bob rhanddeiliad)***

28. Mae costau sefydlu yn gymwys i Lywodraeth Cymru am baratoi canllawiau a fyddai'n nodi sut y byddai Gweinidogion Cymru yn newid neu'n dirymu cydsyniad seilwaith. Nid ystyrir y byddai costau sefydlu ychwanegol a fyddai'n gymwys i unrhyw randdeiliaid eraill o dan yr opsiwn hwn.

29. Rhoddir tabl cryno o'r costau sefydlu i wahanol randdeiliaid o dan Opsiwn 1 isod.

| **Tabl E – Costau sefydlu ar gyfer Opsiwn 1** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Costau |
| Llywodraeth Cymru | £2,600 |
| ACLlau | £0 |
| Datblygwyr | £0 |
| Cymunedau | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | £0 |

***Opsiwn 1 – Costau Sefydlu – Llywodraeth Cymru***

30. Bydd costau sefydlu yn gymwys i Lywodraeth Cymru am baratoi canllawiau i newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith. Amcangyfrifir y byddai canllawiau o'r fath hyd at 10,000 o eiriau at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

31. Ceir dadansoddiad isod o gostau staffio Llywodraeth Cymru am baratoi'r canllawiau. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost derfynol i Lywodraeth Cymru am baratoi canllawiau yn **£2,600**.

| **Tabl F – Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Newid neu Ddirymu Cydsyniad Seilwaith** | |
|---|---|
| Tasg | Cost |
| 3 diwrnod gwaith – amser Uwch-swyddog Gweithredol Cynllunio Llywodraeth Cymru i baratoi'r canllawiau. | £1,000 |
| 0.5 diwrnod gwaith – amser Swyddog Cynllunio Gradd 7 Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r canllawiau. | £200 |

| | |
|---|---|
| 5 diwrnod gwaith – amser Swyddog Gweithredol Uwch Cyfieithu Llywodraeth Cymru i gyfieithu'r canllawiau (gan weithio ar y sail y byddai'n cyfieithu 2,000 o eiriau y dydd). | £1,400 |
| **Cyfanswm y gost** | **£2,600** |

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Net y flwyddyn (i bob rhanddeiliad)***

32. Isod, ceir tabl cryno o gostau net Opsiwn 1 i'r rhanddeiliaid a nodwyd. Trafodir y costau hyn yn fanylach yn yr adrannau sy'n dilyn.

| **Tabl G – Crynodeb o gostau net Opsiwn 1 bob blwyddyn i'r rhanddeiliaid a nodwyd** | | | |
|---|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 – gwneud yr isafswm – newid gorchymyn cydsyniad seilwaith o dan y prosesau presennol. | Opsiwn 1 – gwneud yr isafswm – dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith o dan y prosesau presennol. | Opsiwn 1 – Cyfanswm y Costau |
| Llywodraeth Cymru | £125,000 | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | £125,000 |
| ACLlau | £11,800 | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | £11,800 |
| Datblygwyr | £75,600 | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | £75,600 |
| Cymunedau | Anhysbys | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | Anhysbys |
| Ymgyngoreion Statudol | £9,500 | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | £9,500 |

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Yn Gymwys i Bob Rhanddeiliad – Newidiadau i Gydsyniad Seilwaith***

33. O dan yr opsiwn hwn, er na fyddai proses ffurfiol newydd ar gyfer newid cydsyniad seilwaith a ragnodir gan reoliadau, ystyrir y gallai rhanddeiliaid ymgymryd â phrosesau tebyg gan ddefnyddio'r adnoddau cydsynio seilwaith sydd eisoes ar gael. Felly, mae costau llinell sylfaen i randdeiliaid o dan yr opsiwn hwn. Caiff y costau hyn eu trafod isod.

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Llywodraeth Cymru – Newidiadau i Gydsyniad Seilwaith***

34. Pe bai datblygwr am newid cydsyniad seilwaith, o dan yr opsiwn hwn gallai gyflwyno cais i Weinidogion Cymru a fyddai'n cael ei ystyried yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Byddai hyn yn arwain at gostau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar y ceisiadau hynny, a amcangyfrifir isod:

- Gallai ceisiadau i newid cydsyniad seilwaith arwain at newidiadau helaeth i'r cydsyniad a gymeradwywyd yn flaenorol (newidiadau ‘sylweddol’) neu newidiadau sy'n llai arwyddocaol, megis newid un o elfennau manwl penodol cynllun (newidiadau ‘ansylweddol’). I bob pwrpas, gallai newidiadau amrywio o rywbeth bach iawn, megis newid enw yn achos newid ansylweddol, i rywbeth sy'n newid graddau a math y datblygiad seilwaith y cydsyniwyd iddo yn wreiddiol, yn achos newid sylweddol. Byddai costau gwahanol i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar y mathau gwahanol hyn o geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith sydd eisoes yn bodoli.

- Rydym o'r farn y bydd ceisiadau i wneud newidiadau sylweddol i gydsyniad seilwaith yn cyfateb i brosesau ar gyfer penderfynu ar gais DAC â lefel

ganolig o gymhlethdod. Nodwyd mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol mai ceisiadau yw DAC cymhlethdod canolig lle gallai gwrandawiad ar sail pwnc gael ei gynnal. Serch hynny, nid ydynt yn debygol o fynd drwy union yr un gyfres o brosesau â chais DAC cymhlethdod canolig. Er enghraifft, llai o wrandawiadau aml-ddiwrnod. Fodd bynnag, mae costau i Lywodraeth Cymru a fyddai'n gymwys o hyd yn cynnwys costau am brosesu'r cais, gweinyddu'r penderfyniad terfynol a chael mewnbwn cyfreithiol perthnasol. Pe bai rhai costau gweithdrefnol yn cael eu heithrio fel y crybwyllwyd uchod, bydd costau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar newidiadau sylweddol, yn seiliedig ar amcangyfrif ceidwadol, yn arwain at senario waethaf o 50% o'r costau a gymhwysir ar gyfer penderfynu ar gais DAC cymhlethdod canolig.

- Rydym o'r farn y bydd ceisiadau i wneud newidiadau ansylweddol i gydsyniad seilwaith yn cyfateb i brosesau ar gyfer penderfynu ar gais DAC â lefel isel o gymhlethdod. Nodwyd mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol mai ceisiadau yw DAC cymhlethdod isel sydd ar raddfa fach eu natur. Serch hynny, ni fydd ceisiadau am newidiadau ansylweddol yn mynd drwy union yr un gyfres o brosesau â chais DAC cymhlethdod isel. Er enghraifft, ni fyddent yn ddarostyngedig i'r un gweithdrefnau archwilio a chyn gwneud cais. Fodd bynnag, mae costau i Lywodraeth Cymru a fyddai'n gymwys o hyd yn cynnwys costau am brosesu'r cais, gweinyddu'r penderfyniad terfynol a chael mewnbwn cyfreithiol perthnasol. Pe bai rhai costau gweithdrefnol yn cael eu heithrio fel y crybwyllwyd uchod, bydd costau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar newidiadau ansylweddol, yn seiliedig ar amcangyfrif ceidwadol, yn arwain at senario waethaf o 50% o'r costau a gymhwysir ar gyfer penderfynu ar gais DAC cymhlethdod isel.

- Ar gyfer staff Llywodraeth Cymru a fyddai'n ymgymryd â'r prosesau uchod, mae'r costau yn seiliedig ar gyflogau 2025/2026. Mae hyn yn arwain at y costau canlynol i Lywodraeth Cymru fesul cais:

| **Tabl H – Opsiwn 1 – Costau i Lywodraeth Cymru fesul cais am benderfynu ar geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | |
|---|---|
| Costau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar newid ansylweddol i gydsyniad seilwaith (sy'n cyfateb i 50% o'r costau am benderfynu ar gais DAC cymhlethdod isel gan gymhwyso costau staffio 2025/2026) | Costau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar newid sylweddol i gydsyniad seilwaith (sy'n cyfateb i 50% o'r costau am benderfynu ar gais DAC cymhlethdod canolig gan gymhwyso costau staffio 2025/2026) |
| £17,100 | £40,300 |

35. O ran nifer y ceisiadau y disgwylir i Lywodraeth Cymru benderfynu arnynt bob blwyddyn a fyddai'n newid cydsyniad seilwaith presennol, mae'r data a ddarparwyd gan ACLlau ynghylch penderfyniadau ar newidiadau i gynlluniau DAC yn cynnig sail ar gyfer amcangyfrif y ffigurau hynny. Disgwylir i'r ffigurau fod yn gymaradwy â phenderfyniadau ACLlau ar gynlluniau DAC oherwydd bod

yr angen i geiswyr wneud newidiadau i'w cynlluniau yn parhau i fod yr un peth o dan y broses gydsynio newydd.

36. Felly, mae'r costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru o dan Opsiwn 1 am benderfynu ar geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith fel a ganlyn (darperir y costau fesul blwyddyn a thros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd):

| **Tabl I – Opsiwn 1 – Costau i Lywodraeth Cymru fesul blwyddyn a thros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd am benderfynu ar geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | | | |
|---|---|---|---|
| | Costau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar newidiadau ansylweddol i gydsyniadau seilwaith | Costau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar newidiadau sylweddol i gydsyniadau seilwaith | |
| Costau fesul cais (gweler Tabl H) | £17,100 | £40,300 | |
| Nifer y penderfyniadau cyfatebol gan ACLlau bob blwyddyn ar newidiadau ansylweddol i gynlluniau DAC fel ceisiadau Adran 96A (gweler Tabl 1) | 2.6 | | |
| Nifer y penderfyniadau cyfatebol gan ACLlau bob blwyddyn ar newidiadau sylweddol i gynlluniau DAC fel ceisiadau Adran 73 (gweler Tabl 1) | | 2 | |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru fesul blwyddyn am benderfynu ar geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | £44,500 | £80,500 | **£125,000** |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd am benderfynu ar geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | £444,600 | £805,000 | **£1,249,600** |

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – ACLlau – Newidiadau i Gydsyniad Seilwaith***

37. Pe bai datblygwr am newid cydsyniad seilwaith, gallai gyflwyno cais i Weinidogion Cymru i newid ei orchymyn cydsyniad seilwaith. Byddai hyn yn arwain at gostau i ACLlau am ddarparu mewnbwn lleol i'r broses o benderfynu ar y ceisiadau hynny, a amcangyfrifir isod:

- Mae gennym gostau i ACLlau am ymwneud â phrosesau DAC y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth o'r costau pe baent yn ymwneud â'r broses gydsynio newydd ar gyfer seilwaith. Yn ôl y dystiolaeth ym Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf Seilwaith (Cymru), roedd costau 2024/2025 ar gyfer cyfranogiad ACLlau mewn ceisiadau DAC yn £4,902 fesul cais. Roedd hyn yn seiliedig ar uwchraddio costau 2022 i ACLlau, sef £4,344 fesul cais, a godwyd o Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf.

- Mae angen i'r costau i ACLlau fod yn seiliedig ar gostau 2025/2026 sy'n gymwys ar adeg ysgrifennu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae data'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion diweddaraf[1] yn dangos y bu cynnydd o 18.3% mewn cyflog gros canolrifol yr awr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru rhwng 2022 a 2025. Gellir cymhwyso'r cynnydd hwnnw i gostau 2022 i ACLlau, er mwyn rhoi cost amcangyfrifedig i ACLlau am eu cyfranogiad mewn ceisiadau DAC yn 2025/2026 (18.3% o £4,344 wedi'i adio at £4,344), sef £5,139 fesul cais.

- Rydym o'r farn y byddai'r costau am gyfranogiad ACLlau mewn ceisiadau arfaethedig i newid cydsyniadau seilwaith oddeutu hyd at hanner eu costau y ceir tystiolaeth ohonynt am eu cyfranogiad mewn ceisiadau DAC. Byddai'r cais am newid i gydsyniad seilwaith (p'un a yw'r newid yn sylweddol neu'n ansylweddol ei natur) ond yn ymwneud â'r newid ei hun. Ystyrir y gallai newid i gydsyniad seilwaith olygu bod yn rhaid i ACLl wneud sylwadau ar faterion sy'n gofyn am hanner neu 50% o'i amser o gymharu â gwneud sylwadau ar gais llawn. Ystyrir mai dyma'r senario waethaf oherwydd credir y byddai unrhyw newid i gydsyniad seilwaith yn ymwneud ag elfennau manwl o'r cynllun ac nid egwyddor y datblygiad.

- Mae gennym ddata hefyd ar nifer tebygol y ceisiadau i newid cydsyniadau seilwaith yn seiliedig ar benderfyniadau ACLlau ar newidiadau i gynlluniau DAC, fel y dangoswyd yn flaenorol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

- Felly, mae'r costau amcangyfrifedig i ACLlau o dan Opsiwn 1 am gyfrannu at geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith fel a ganlyn (darperir y costau fesul blwyddyn a thros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd):

**Tabl J – Opsiwn 1 – Costau i ACLlau fesul blwyddyn a thros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd am gyfrannu at geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol**

[1] Earnings and hours worked, UK region by public and private sector: ASHE Table 25 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

| | |
|---|---|
| Costau fesul cais (gweler uchod) | 50% o'r costau am eu cyfranogiad mewn ceisiadau DAC = (£5,139 / 2) = £2,600  (A) |
| Nifer y penderfyniadau cyfatebol gan ACLlau bob blwyddyn ar newidiadau ansylweddol i gynlluniau DAC fel ceisiadau Adran 96A (gweler Tabl 1) | 2.6 (B) |
| Nifer y penderfyniadau cyfatebol gan ACLlau bob blwyddyn ar newidiadau sylweddol i gynlluniau DAC fel ceisiadau Adran 73 (gweler Tabl 1) | 2 (C) |
| **Cyfanswm y costau i ACLlau fesul blwyddyn am ymwneud â cheisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | **= (A wedi'i luosi â (B plws C)) = £11,800 (D)** |
| **Cyfanswm y costau i ACLlau dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd am ymwneud â cheisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | **= (D wedi'i luosi â 10) = £118,200** |

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Ymgyngoreion Statudol – Newidiadau i Gydsyniad Seilwaith***

38. Pe bai datblygwr am newid cydsyniad seilwaith, gallai gyflwyno cais i Weinidogion Cymru i newid ei orchymyn cydsyniad seilwaith. Byddai hyn yn arwain at gostau i ymgyngoreion statudol am ddarparu mewnbwn arbenigol i'r broses o benderfynu ar y ceisiadau hynny, a amcangyfrifir isod:

- Mae gennym gostau i ymgyngoreion statudol am ymwneud â phrosesau DAC y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth o'r costau pe baent yn ymwneud â'r broses gydsynio newydd ar gyfer seilwaith. Dangoswyd y data hynny fel rhan o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Cydsyniad Seilwaith blaenorol ac maent yn dod o Adroddiad Arup. Mae Adroddiad Arup yn rhoi tystiolaeth bod costau i ymgyngoreion statudol am ymwneud â'r broses DAC yn £4,113 fesul cais. Nid yw'r ffigur hwn wedi cael ei uwchraddio at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol.

- Rydym o'r farn y byddai'r costau am gyfranogiad ymgyngoreion statudol mewn ceisiadau arfaethedig i newid cydsyniadau seilwaith oddeutu hyd at hanner eu costau y ceir tystiolaeth ohonynt am eu cyfranogiad mewn ceisiadau DAC. Byddai'r cais am newid i gydsyniad seilwaith (p'un a yw'r newid yn sylweddol neu'n ansylweddol ei natur) ond yn ymwneud â'r newid ei hun. Ystyrir y gallai newid i gydsyniad seilwaith olygu bod yn rhaid i ymgyngoreion statudol wneud sylwadau ar faterion sy'n gofyn am hanner neu 50% o'i amser o gymharu â gwneud sylwadau ar gyflwyniad llawn. Ystyrir mai dyma'r senario waethaf oherwydd credir y byddai unrhyw newid i gydsyniad seilwaith yn ymwneud ag elfennau manwl o'r cynllun ac nid egwyddor y datblygiad.

- Mae gennym ddata hefyd ar nifer tebygol y ceisiadau i newid cydsyniadau seilwaith yn seiliedig ar benderfyniadau ACLlau ar newidiadau i gynlluniau DAC, fel y dangoswyd yn flaenorol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

- Felly, mae'r costau amcangyfrifedig i ymgyngoreion statudol o dan Opsiwn 1 am gyfrannu at geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith fel a ganlyn (darperir y costau fesul blwyddyn a thros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd):

| **Tabl K – Opsiwn 1 – Costau i ymgyngoreion statudol fesul blwyddyn a thros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd am gyfrannu at geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | |
|---|---|
| Costau fesul cais (gweler uchod) | 50% o'r costau am eu cyfranogiad mewn ceisiadau DAC = (£4,113 / 2) = £2,100 (A) |
| Nifer y penderfyniadau cyfatebol gan ACLlau bob blwyddyn ar newidiadau ansylweddol i gynlluniau DAC fel ceisiadau Adran 96A (gweler Tabl 1) | 2.6 (B) |
| Nifer y penderfyniadau cyfatebol gan ACLlau bob blwyddyn ar newidiadau sylweddol i gynlluniau DAC fel ceisiadau Adran 73 (gweler Tabl 1) | 2 (C) |
| **Cyfanswm y costau i ymgyngoreion statudol fesul blwyddyn am ymwneud â cheisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | **= (A wedi'i luosi â (B plws C)) = £9,500 (D)** |
| **Cyfanswm y costau i ymgyngoreion statudol dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd am ymwneud â cheisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | **= (D wedi'i luosi â 10) = £94,600** |

*Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Datblygwyr – Newidiadau i Gydsyniad Seilwaith*

39. Pe bai datblygwr am newid cydsyniad seilwaith, gallai gyflwyno cais i Weinidogion Cymru i newid ei orchymyn cydsyniad seilwaith. Byddai hyn yn arwain at gostau iddo am wneud hynny, a amcangyfrifir isod:

- Mae gennym gostau i ddatblygwyr am ymwneud â phrosesau DAC y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth o'r costau pe baent yn ymwneud â'r broses gydsynio newydd ar gyfer seilwaith. Dangoswyd y data hynny fel rhan o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Cydsyniad Seilwaith blaenorol ac maent yn dod o Adroddiad Arup.

- Mae Adroddiad Arup yn dangos costau amcangyfrifedig i ddatblygwyr am wneud diwygiad sylweddol i brosiect yn ystod y broses o archwilio cais, lle y gwnaed un, sef £29,667 o dan y broses DAC. Mae'n rhoi tystiolaeth bellach o gostau amcangyfrifedig i ddatblygwyr am wneud diwygiad ansylweddol neu fân ddiwygiad i brosiect yn ystod y broses o archwilio cais, lle y gwnaed un, sef £6,250 o dan y broses DAC. Ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso'r costau hyn mewn perthynas â dangos costau i ddatblygwyr am wneud newidiadau i orchmynion cydsyniad seilwaith. Yn olaf, nid yw ffigurau a godwyd o Adroddiad Arup ar gostau i ddatblygwyr wedi cael eu huwchraddio at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol.

- Mae gennym ddata hefyd ar nifer tebygol y ceisiadau i newid cydsyniadau seilwaith yn seiliedig ar benderfyniadau ACLlau ar newidiadau i gynlluniau DAC. Caiff y ffigurau hynny eu rhannu yn ôl newidiadau sylweddol ac ansylweddol. Felly, gallwn gyfuno'r ddwy set o gostau i ddatblygwyr a'u hamlder.

- Felly, mae'r costau amcangyfrifedig i ddatblygwyr am gyflwyno ceisiadau i newid cydsyniadau seilwaith fel a ganlyn (darperir y costau fesul blwyddyn a thros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd):

| **Tabl L – Opsiwn 1 – Costau i ddatblygwyr fesul blwyddyn a thros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd am gyflwyno ceisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | |
|---|---|
| Costau i ddatblygwyr am wneud diwygiad ansylweddol neu fân ddiwygiad i brosiect yn ystod y broses o archwilio cais, lle y gwnaed un. | £6,250 (A) |
| Costau i ddatblygwyr am wneud diwygiad sylweddol i brosiect yn ystod y broses o archwilio cais, lle y gwnaed un. | £29,667 (B) |

| | |
|---|---|
| Nifer y penderfyniadau cyfatebol gan ACLlau bob blwyddyn ar newidiadau ansylweddol i gynlluniau DAC fel ceisiadau Adran 96A (gweler Tabl 1) | 2.6 (C) |
| Nifer y penderfyniadau cyfatebol gan ACLlau bob blwyddyn ar newidiadau sylweddol i gynlluniau DAC fel ceisiadau Adran 73 (gweler Tabl 1) | 2 (D) |
| Cyfanswm y costau i ddatblygwyr fesul blwyddyn am gyflwyno ceisiadau i wneud newidiadau ansylweddol i gydsyniadau seilwaith presennol | = (A wedi'i luosi â C) = £16,250 (E) |
| Cyfanswm y costau i ddatblygwyr fesul blwyddyn am gyflwyno ceisiadau i wneud newidiadau sylweddol i gydsyniadau seilwaith presennol | = (B wedi'i luosi â D) = £59,334 (F) |
| **Cyfanswm y costau i ddatblygwyr fesul blwyddyn am gyflwyno ceisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | **= (E plws F) = £75,600 (G)** |
| **Cyfanswm y costau i ddatblygwyr dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd am gyflwyno ceisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** | **= (G wedi'i luosi â 10) = £755,900** |

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Cymunedau – Newidiadau i Gydsyniad Seilwaith***

40. Ni wyddys beth yw'r costau i gymunedau am ymwneud â'r broses. Yn debyg i'r costau am eu cyfranogiad mewn cais cychwynnol am gydsyniad seilwaith (fel y dangoswyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf), mae'r gost am eu cyfranogiad yn amrywio yn dibynnu ar gefndir yr ymatebydd a natur ei ymateb i ddatblygiad penodol. Felly, nid yw'n bosibl amcangyfrif yr amser a dreulir gan gymunedau yn gwneud sylwadau ar gydsyniadau seilwaith sy'n ddarostyngedig i'r prosesau hyn ac felly gostau cysylltiedig gwneud hynny.

| **Tabl M – Opsiwn 1 – Costau i gymunedau am gyfrannu at geisiadau i newid cydsyniadau seilwaith presennol** |
|---|
| Anhysbys |

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Yn Gymwys i Bob Rhanddeiliad – Dirymu Cydsyniad Seilwaith***

41. O dan yr opsiwn hwn, er na fyddai proses ffurfiol newydd ar gyfer dirymu cydsyniad seilwaith a ragnodir gan reoliadau, ystyrir y gallai rhanddeiliaid ymgymryd â phrosesau tebyg gan ddefnyddio'r adnoddau cydsynio seilwaith sydd eisoes ar gael yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus.

42. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y disgwyliwn i gydsyniad seilwaith gael ei ddirymu. Un, pan fydd cydsyniad yn gosod gofynion penodol ar geisydd/datblygwr yr hoffai eu datgymhwyso. Er enghraifft, gofynion penodol i gaffael tir yn orfodol fel rhan o orchymyn cydsyniad seilwaith. Dau, lle byddai Gweinidogion Cymru yn dirymu cydsyniad yn unochrog. Er enghraifft, lle mae amgylchiadau allweddol mewn perthynas â chydsyniad a gymeradwywyd yn newid neu lle ceir newid sylfaenol mewn safbwynt polisi gan Weinidogion Cymru ar gydsyniad a gymeradwywyd. Tri, o dan ofynion adran 90(4) o'r Ddeddf, lle mae ACLl yn gwneud cais i Weinidogion Cymru ddirymu cydsyniad seilwaith. Byddai ACLlau yn gallu gwneud hyn lle caiff cydsyniad seilwaith ei gymeradwyo yn ei ardal, mae'r datblygiad wedi dechrau ond wedi cael ei adael i fynd yn segur ac mae cyflwr y tir yn effeithio ar amwynder tir arall. Yn seiliedig ar brofiad lle mae'r senarios hyn wedi digwydd gyda DAC, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y disgwyliwn i'r uchod fod yn gymwys a'n hamcangyfrif yw na cheir unrhyw un o'r ceisiadau hyn dros gyfnod o 10 mlynedd. Felly, mae'r gost ddisgwyliedig am ddirymu cydsyniad wedi'i osod ar sero i bob rhanddeiliad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

43. Er gwaethaf yr uchod, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn rhoi *costau dangosol* i randdeiliaid amrywiol am ymgymryd â'r broses hon pe bai cais i ddirymu yn cael ei gyflwyno. Caiff y costau hyn eu nodi isod.

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Llywodraeth Cymru – Dirymu Cydsyniad Seilwaith***

44. Pe bai'r broses ar gyfer dirymu cydsyniad seilwaith yn cael ei rhoi ar waith, beth bynnag fo'r rhesymau, byddai costau i Lywodraeth Cymru am benderfynu ar y ceisiadau hynny. Amcangyfrifir y costau hynny isod:

- Rydym o'r farn y byddai'r costau i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i ddirymu cydsyniad seilwaith yn cyfateb i benderfynu ar gais am newid sylweddol i gydsyniad seilwaith, fel y'i nodwyd yn yr opsiwn hwn hefyd. Mae'n anodd rhagfynegi unrhyw fath o gais i ddirymu a allai gael ei gyflwyno, ond fel senario amcangyfrif gorau, ystyrir y gallai'r broses o ddirymu cydsyniad gan Lywodraeth Cymru fod yn debyg i ystyried newidiadau parhaol i gydsyniad seilwaith presennol. Fodd bynnag, ni fyddai mor helaeth â phenderfynu ar gais newydd am gydsyniad seilwaith. Felly, ystyrir y byddai'r costau a fyddai'n gymwys fel amcangyfrif gorau yn cyfateb i benderfynu ar newid sylweddol. Nodir y costau hyn o dan Dabl H a byddent yn £40,300 fesul cais.

- Yn ogystal â'r uchod, pe bai Gweinidogion Cymru yn dirymu cydsyniad seilwaith yn hytrach na bod y ceisydd yn cynnig hyn, mae'n debygol y byddai costau digolledu i'r ceisydd am iddo golli ei gydsyniad. Byddai'r rhain yn amrywio fesul achos yn dibynnu ar natur y cynllun a'r costau yr aed iddynt gan y ceisydd hyd yn hyn. Oherwydd eu natur amrywiol, ni ellir rhoi cost

ddangosol mewn perthynas â Llywodraeth Cymru yn dyfarnu tâl digolledu am ddirymu cydsyniad seilwaith at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

| **Tabl N – Opsiwn 1 – Cost ddangosol i Lywodraeth Cymru am ddirymu cais am gydsyniad seilwaith** |
|---|
| £40,300 |

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – ACLlau – Dirymu Cydsyniad Seilwaith***

45. Pe bai'r broses ar gyfer dirymu cydsyniad seilwaith yn cael ei rhoi ar waith, beth bynnag fo'r rhesymau, byddai costau i ACLlau am ddarparu mewnbwn lleol i'r broses o benderfynu ar y ceisiadau hynny. Yn debyg i'r costau a fyddai'n gymwys i Lywodraeth Cymru, mae'n anodd rhagfynegi i ba raddau y byddai ACLl yn ymateb i gais i ddirymu oherwydd ni ellir manylu ar y math o geisiadau nac o dan ba amgylchiadau y cânt eu cyflwyno. Fel senario amcangyfrif gorau, nid ystyrir y byddai'r broses ar gyfer dirymu cydsyniad mor helaeth i ACLlau â gwneud sylwadau ar gais llawn am gydsyniad seilwaith. Felly, ystyrir y byddai'r costau a fyddai'n gymwys i ACLl o ganlyniad i ymateb i gais i ddirymu, fel amcangyfrif gorau, yn cyfateb i gyfrannu at gais i newid cydsyniad presennol, o dan y broses a nodir yn yr opsiwn hwn. Nodir y gost hon o dan Dabl J a byddai'n £2,600 fesul cais.

46. Byddai costau a fyddai hefyd yn gymwys i ACLlau am gyflwyno cais i ddirymu cydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru, o dan yr amgylchiadau a nodir yn adran 90(4) o'r Ddeddf ac a ddisgrifiwyd uchod. Nid oes tystiolaeth hanesyddol gymwys ar gyflwyno ceisiadau i ddirymu gan ACLlau i Weinidogion Cymru. Felly, nid yw'r costau hyn yn hysbys, ond disgwylir iddynt orfod ymgymryd â phrosesau tebyg i ddatblygwyr o ran gwneud cais i ddirymu cydsyniad seilwaith.

| **Tabl O – Opsiwn 1 – Cost ddangosol i ACLl am gyfrannu at gais arfaethedig i ddirymu cydsyniad seilwaith** |
|---|
| £2,600 (cyfrannu at gais a gyflwynwyd gan barti arall);<br>Anhysbys (lle byddai'n gwneud ei gais ei hun i Weinidogion Cymru ddirymu cydsyniad seilwaith o dan yr amgylchiadau a nodir yn adran 90(4) o'r Ddeddf). |

***Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Ymgyngoreion Statudol – Dirymu Cydsyniad Seilwaith***

47. Pe bai'r broses ar gyfer dirymu cydsyniad seilwaith yn cael ei rhoi ar waith, beth bynnag fo'r rhesymau, byddai costau i ymgyngoreion statudol am ddarparu mewnbwn lleol i'r broses o benderfynu ar y ceisiadau hynny. Yn debyg i'r costau a fyddai'n gymwys i Lywodraeth Cymru, mae'n anodd rhagfynegi i ba raddau y byddai ymgyngoreion statudol yn ymateb i gais i ddirymu oherwydd ni ellir manylu ar y math o geisiadau nac o dan ba amgylchiadau y cânt eu cyflwyno. Fel senario amcangyfrif gorau, nid ystyrir y byddai'r broses ar gyfer dirymu cydsyniad mor helaeth i ymgyngoreion statudol â gwneud sylwadau ar gais llawn am gydsyniad seilwaith. Felly, ystyrir y byddai'r costau a fyddai'n gymwys i ymgyngoreion statudol o ganlyniad i ymateb i gais i ddirymu, fel amcangyfrif gorau, yn cyfateb i gyfrannu at gais i newid cydsyniad presennol, o dan y broses

a nodir yn yr opsiwn hwn. Nodir y gost hon o dan Dabl K a byddai'n £2,100 fesul cais.

| Tabl P – Opsiwn 1 – Cost ddangosol i ymgyngoreion statudol am gyfrannu at gais arfaethedig i ddirymu cydsyniad seilwaith |
|---|
| £2,100 |

### *Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Datblygwyr – Dirymu Cydsyniad Seilwaith*

48. Pe bai cydsyniad seilwaith yn cael ei ddirymu, yn gryno, byddai dau reswm dros wneud hyn. Pe bai Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud hyn yn unochrog ac nad yw'r datblygwr yn debygol o gefnogi'r cam gweithredu hwn o dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai costau i ddatblygwyr gan mai Gweinidogion Cymru fyddai'n rhoi'r broses ar gyfer dirymu'r cydsyniad ar waith. O dan yr amgylchiadau hynny, gall y datblygwr geisio tâl digolledu am iddo golli'r datblygiad. Fodd bynnag, os mai'r datblygwr roddodd y broses ar waith ar gyfer dirymu'r cydsyniad, byddai'n cyflwyno cais i Weinidogion Cymru i ddirymu ei orchymyn cydsyniad seilwaith. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu codi tâl am gyflawni cais o'r fath am nad oes ffioedd sefydlog ar waith ar gyfer ymgymryd â'r cais hwn, ond byddai costau gweinyddol cysylltiedig i ddatblygwyr o ran eu hamser a'u mewnbwn wrth wneud y ceisiadau hynny. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth hanesyddol ar gyflwyno ceisiadau i ddirymu gan ddatblygwyr i Weinidogion Cymru o dan y gyfundrefn ar gyfer DAC. Felly, gan ystyried yr amgylchiadau hyn, nid yw'r gost i ddatblygwyr am ddirymu cais yn gost sefydlog y gellir rhoi cyfrif amdani ac felly nid yw'n hysbys.

| Tabl Q – Opsiwn 1 – Cost ddangosol i ddatblygwyr am gais arfaethedig i ddirymu cydsyniad seilwaith |
|---|
| Anhysbys |

### *Opsiwn 1 – Costau Parhaus – Cymunedau – Dirymu Cydsyniad Seilwaith*

49. Nid yw costau i gymunedau am ymwneud â cheisiadau i ddirymu cydsyniadau seilwaith presennol yn hysbys. Mae'r un rhesymau yn gymwys fel y nodwyd yn flaenorol o dan yr opsiwn hwn ar gyfer cyfranogiad cymunedau mewn prosesau cydsynio seilwaith.

50. Er nad yw'n bosibl meintoli'r costau i gymunedau am ddirymu manteision seilwaith, o ran yr effeithiau ehangach ar gymunedau, gallai fod effeithiau cymdeithasol mewn perthynas â thynnu'r caniatâd yn ôl. Gallai hyn, er enghraifft, ymwneud â cholli swyddi lle nad yw prosiect yn mynd rhagddo mwyach o bosibl. Fodd bynnag, ni fyddai dirymu cydsyniad seilwaith yn cael effaith negyddol gyffredinol ar gymuned gan y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried yr holl effeithiau a dim ond lle byddai rhesymau dilys a phwysig dros wneud hynny y byddent yn dirymu cydsyniad.

| Tabl R – Opsiwn 1 – Costau dangosol i gymunedau am gyfrannu at geisiadau i ddirymu cydsyniadau seilwaith presennol |
|---|

### *Opsiwn 1 – Manteision*

51. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig manteision clir gan na fyddai tryloywder na sicrwydd o ran prosesau i Weinidogion Cymru newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw geisiadau i newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Gall y diffyg tryloywder a sicrwydd o ran y broses ar gyfer ystyried ceisiadau o'r fath olygu y gellid herio'r gweithdrefnau a ddilynir. Yn ogystal, wrth ystyried ceisiadau o'r fath, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu cael ad-daliad am unrhyw gostau gan na fyddai atodlen ffioedd ar waith a fyddai'n golygu y gellid rhoi ad-daliad am gyflawni gweithdrefnau penodol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny.

### *Opsiwn 2 – Disgrifiad*

52. O dan yr opsiwn hwn, byddai rheoliadau yn creu prosesau newydd ar gyfer gwneud cais a fyddai'n golygu bod modd newid neu ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith. Pe bai ceisydd am newid cydsyniad seilwaith, byddai'n gallu cyflwyno cais am y newid arfaethedig a fyddai'n cael ei ystyried yn unol â'r broses a ragnodwyd yn y rheoliadau. Byddai proses glir ar gyfer dirymu cydsyniad seilwaith hefyd, gan gynnwys opsiwn i Weinidogion Cymru ymgymryd â hyn yn unochrog. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill adennill unrhyw gostau yr eir iddynt o dan y prosesau hynny gan y byddai atodlen ffioedd ar waith a fyddai'n golygu y gellid rhoi ad-daliad am gyflawni gweithdrefnau penodol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny.

### *Opsiwn 2 – Costau Sefydlu (i bob rhanddeiliad)*

53. Byddai'r costau sefydlu yr un peth ag Opsiwn 1 oherwydd, eto, byddai Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau a fyddai'n nodi sut y byddai Gweinidogion Cymru yn newid neu'n dirymu cydsyniad seilwaith. Nid ystyrir y byddai costau sefydlu ychwanegol a fyddai'n gymwys i unrhyw randdeiliaid eraill o dan yr opsiwn hwn.

54. Rhoddir tabl cryno o'r costau sefydlu i wahanol randdeiliaid o dan Opsiwn 2 isod.

| **Tabl S – Costau sefydlu ar gyfer Opsiwn 2** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Costau |
| Llywodraeth Cymru | £2,600 |
| ACLlau | £0 |
| Datblygwyr | £0 |
| Cymunedau | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | £0 |

### *Opsiwn 2 – Costau Sefydlu – Llywodraeth Cymru*

55. Disgwylir i'r costau i Lywodraeth Cymru am baratoi canllawiau ar gyfer newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith, lle caiff prosesau eu rhagnodi mewn rheoliadau ar gyfer gwneud hynny, fod yr un peth â'r hyn a nodwyd o dan Opsiwn 1. Ystyrir y byddai angen yr un faint o amser a mewnbwn gan swyddogion i baratoi'r canllawiau o dan y ddau opsiwn, p'un a ydynt yn cyfeirio at broses sydd wedi'i nodi mewn rheoliadau ai peidio.

56. Felly, fel y nodwyd o dan Dabl F ar gyfer Opsiwn 1, amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost derfynol i Lywodraeth Cymru am baratoi canllawiau o dan yr opsiwn hwn yn £2,600.

| **Tabl T – Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Newid neu Ddirymu Cydsyniad Seilwaith (Opsiwn 2)** |
|---|
| (Yr un peth ag ar gyfer Opsiwn 1) £2,600 |

### *Opsiwn 2 – Costau Parhaus – Net y flwyddyn (i bob rhanddeiliad)*

57. O dan Opsiwn 2, byddai proses newydd ar gyfer ystyried cais i newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith.

58. Byddai costau o dan yr opsiwn hwn ar gyfer newid cydsyniad seilwaith yr un peth i randdeiliaid â'r costau o dan Opsiwn 1, ond byddai'r gyfundrefn ffioedd yn golygu y codir tâl yn llawn ar ddatblygwyr am unrhyw gostau yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru, ymgyngoreion statudol ac awdurdodau cynllunio lleol am gyfrannu at gais i newid cydsyniad seilwaith neu benderfynu arno. I bob pwrpas, byddai hyn yn golygu na fyddai cyrff cyhoeddus yn mynd i unrhyw gostau am benderfynu ar gais gan y byddai'r costau hynny yn cael eu talu'n llawn gan ddatblygwyr.

59. Mae'r amgylchiadau lle gallai Gweinidogion Cymru benderfynu ar gais i ddirymu yr un peth â'r rhai a nodwyd o dan Opsiwn 1 ac felly byddent yn gymwys p'un a oes rheoliadau ai peidio. Am y rhesymau a roddwyd o dan Opsiwn 1, ein hamcangyfrif yw na fydd unrhyw un o'r ceisiadau hyn dros gyfnod o 10 mlynedd. Felly, mae'r gost ddisgwyliedig am ddirymu cydsyniad wedi'i osod ar sero i bob rhanddeiliad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

60. O dan Opsiwn 1, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi *costau dangosol* i randdeiliaid amrywiol am ymgymryd â'r broses hon pe bai cais i ddirymu yn cael ei gyflwyno. Byddai costau dangosol a fyddai'n gymwys i randdeiliaid am ddirymu cydsyniad seilwaith yr un peth i randdeiliaid â'r costau o dan Opsiwn 1, ond byddai'r gyfundrefn ffioedd yn golygu y codir tâl yn llawn ar ddatblygwyr am unrhyw gostau yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru, ymgyngoreion statudol ac awdurdodau cynllunio lleol am gyfrannu at gais i ddirymu cydsyniad seilwaith neu benderfynu arno. I bob pwrpas, byddai hyn yn golygu na fyddai cyrff cyhoeddus yn mynd i unrhyw gostau am benderfynu ar gais gan y byddai'r costau hynny yn cael eu talu'n llawn gan ddatblygwyr.

61. Isod, ceir tabl cryno o'r costau net a fyddai'n gymwys i'r rhanddeiliaid a nodwyd o dan yr opsiwn hwn.

| Tabl U – Crynodeb o gostau net Opsiwn 2 bob blwyddyn i'r rhanddeiliaid a nodwyd | | | |
|---|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Opsiwn 2 – newid gorchymyn cydsyniad seilwaith o dan broses newydd a ragnodir gan reoliadau. | Opsiwn 2 – dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith o dan broses newydd a ragnodir gan reoliadau. | Opsiwn 2 – Cyfanswm y Costau |
| Llywodraeth Cymru | £0 | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | £0 |
| ACLlau | £0 | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | £0 |
| Datblygwyr | £75,600 (yr un peth ag Opsiwn 1 yn ogystal â'r ffioedd i ad-dalu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill am y costau y maent yn mynd iddynt am gyflawni eu swyddogaethau – amcangyfrifir y bydd yn gyfanswm o £146,300) | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | £75,600 |
| Cymunedau | Anhysbys | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | Anhysbys |
| Ymgyngoreion Statudol | £0 | £0 (ni ddisgwylir iddo ddigwydd) | £0 |

### *Opsiwn 2 – Manteision*

62. Manteision yr opsiwn hwn yw y byddai'n darparu prosesau clir a thryloyw a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar geisiadau i newid neu ddirymu cydsyniadau seilwaith. Nid yw Opsiwn 1 yn unig yn nodi'r prosesau hynny yn y gyfraith a, thrwy wneud hynny, byddai'n rhoi sicrwydd i bob rhanddeiliad yn ogystal â lleihau'r risg y caiff penderfyniadau eu herio. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn cynnig proses decach drwy alluogi cyrff cyhoeddus i adennill eu costau am ymwneud â'r broses, megis Llywodraeth Cymru ac ACLlau. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig manteision clir y gellir eu cyfiawnhau felly gan y bydd yn nodi prosesau newydd yn glir a fyddai o fudd i Weinidogion Cymru a rhanddeiliaid eraill drwy ganiatáu i gydsyniadau seilwaith gael eu newid a'u dirymu mewn modd amserol ac effeithlon.

### *Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir*

63. Opsiwn 2, sef rhoi rheoliadau ar waith a fydd yn rhagnodi prosesau newydd i Weinidogion Cymru wrth newid a dirymu cydsyniadau seilwaith, yw'r opsiwn a ffefrir.

64. Ceir tablau cryno o'r costau sefydlu a'r costau parhaus net ar gyfer y ddau opsiwn isod. Er yr amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost ar gyfer y ddau opsiwn yn gyfartal, mae'r gyfundrefn codi tâl a fyddai'n cael ei sefydlu o dan Opsiwn 2 yn golygu y bydd cyrff cyhoeddus yn gallu adennill y costau y byddant yn mynd iddynt. Mae hyn yn golygu y caiff costau eu trosglwyddo o gyrff cyhoeddus i ddatblygwyr.

| Tabl AF – Costau sefydlu ar gyfer y naill opsiwn a'r llall (lle y bo'n gymwys) | | |
|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 |
| Llywodraeth Cymru | £2,600 | £2,600 |
| ACLlau | £0 | £0 |
| Datblygwyr | £0 | £0 |

| | | |
|---|---|---|
| Cymunedau | £0 | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | £0 | £0 |

| **Tabl AG – Costau rheolaidd net y flwyddyn** | | |
|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 – Cyfanswm y Costau | Opsiwn 2 – Cyfanswm y Costau |
| Llywodraeth Cymru | £125,000 | £0 |
| ACLlau | £11,800 | £0 |
| Datblygwyr | £75,600 | £75,600 (yr un peth ag Opsiwn 1 yn ogystal â'r ffioedd i ad-dalu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill am y costau y maent yn mynd iddynt am gyflawni eu swyddogaethau – amcangyfrifir y bydd yn gyfanswm o £146,300) |
| Cymunedau | Anhysbys | Anhysbys |
| Ymgyngoreion Statudol | £9,500 | £0 |

65. O ran pryd y disgwylir i'r costau hyn godi, byddai'r costau sefydlu ar gyfer yr opsiwn a ffefrir, sef deddfu'r ddeddfwriaeth, yn gymwys dros gyfnod 2025-2026. Ni fyddai costau parhaus i randdeiliaid ar gyfer y ddau opsiwn yn dechrau cael eu cymhwyso tan y tymor hwy oherwydd mae'n bosibl na fydd y cais cyntaf am gydsyniad seilwaith o dan y broses gydsynio newydd yn cael ei gydsynio tan 2027. Felly, ni fyddai ceisiadau i newid neu ddirymu'r cydsyniadau hynny yn cael eu cyflwyno tan ar ôl y pwynt hwnnw ac mae'n bosibl y byddent yn dechrau dod i law yn ystod 2027-2028. Disgwylir i'r costau o dan yr opsiwn a ffefrir fod yn debyg i randdeiliaid dros y blynyddoedd sy'n dilyn ond, at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, maent wedi cael eu cymhwyso dros gyfnod o 10 mlynedd hyd at 2034-2035. Gwerth presennol net pob opsiwn yw oddeutu £1.69m.

| **Tabl AH – Cyfanswm costau net y flwyddyn ar gyfer y ddau opsiwn, yr eir iddynt yn ystod y cyfnod arfarnu rhwng 2025-26 a 2034-35** | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 |
| 2025-2026 | £2,600 | £2,600 |
| 2026-2027 | £0 (Ni cheir ceisiadau i newid cydsyniadau seilwaith yn ystod y cyfnod hwn ac ni fydd ceisiadau i ddirymu yn bosibl o dan yr opsiwn hwn) | £0 (Ni cheir ceisiadau i newid na dirymu cydsyniadau seilwaith yn ystod y cyfnod hwn) |
| 2027-2028 | £221,800 | £221,800 |
| 2028-2029 | £221,800 | £221,800 |
| 2029-2030 | £221,800 | £221,800 |
| 2030-2031 | £221,800 | £221,800 |
| 2031-2032 | £221,800 | £221,800 |
| 2032-2033 | £221,800 | £221,800 |
| 2033-2034 | £221,800 | £221,800 |
| 2034-2035 | £221,800 | £221,800 |
| **Cyfanswm y costau sy'n gymwys dros y cyfnod rhwng 2025-2026 a 2034-2035** | £1,777,200 | £1,777,200 |
| **Cost ychwanegol o gymharu ag Opsiwn 1 (gwneud yr isafswm, llinell sylfaen)** | - | £0 |